

Dyfodol Gwasanaethau Dydd The Future of Day Services





English - Page 3

Cymraeg - Tudalen 10



What is happening to our day services?

In 1983, the *All Wales Mental Handicap Strategy* accepted that people with a learning disability wanted to live ordinary lives in ordinary houses and there was a move from large hospital based support to more community-based, local authority or 3rd-sector-run day and supported living services.

For over 30 years before the COVID pandemic, many day services were building-based, or centred on the same, regular activities, and provided for many a routine and more importantly opportunities to spend time with friends formed during their lives in the long-stay hospitals.


COVID quickly changed how day services operated. For the most part, they were closed or offered significantly reduced support only to those with more complex needs. However, since the end of the pandemic, many day services continue to be closed or severely reduced. This has led to many calls from people with a learning disability and their families to the Wales Learning Disability Helpline for advice and support in accessing much-needed support services.

To understand the situation better, Mencap Cymru together with the Learning Disability Consortium undertook a listening exercise, which included a national survey.


The Learning Disability Consortium Day Services Survey was conducted in February 2023, and had 293 responses from people with a learning disability or their parent/carers.

Before COVID respondents had a combined 718 hours of day service support each week. At the time of completing the survey they only received 296 hours. 73% experienced some form of cut to day service support hours, severely impacting the well-being of individuals and their families.

Day Service Hours Collectively Received by 293 people



Some day-services are operating on reduced hours and some users/families feel they aren't being consulted on any changes and being subject to unfair cuts. The



Learning Disability Consortium survey also revealed that 75% of respondents have not been consulted as part of these changes.

In some local authorities a traffic-light system was put in place, meaning that those who live with unpaid carers were prioritised over those in supported living. In other local authorities the opposite was true.

Because they have largely been excluded from these decisions parent/carers feel strongly that in some areas day services are being cut in order for

local authorities to save money, by moving people to more isolated support away from group activity with friends.

We heard that families felt that this form of support, through direct payments or from local authorities often meant lone activities e.g. visiting coffee shops or leisure centres with a support worker. **Research suggests?** approach is widely accepted to be unlikely to create or maintain friendships or connection without requirements or willingness on behalf of local authorities to do so. Community is not about a place but rather people.

Mencap Cymru hosted a Wales-wide conference on Monday 20th March 2023 in Cardiff. Over 100 people attended, including people with a learning disability, parents and carers, commissioners, service managers, and support staff.

We wanted to know if our anecdotal evidence of day services reflected peoples' actual experiences. We invited speakers exploring a range of alternatives to traditional building-based day services. We asked delegates to respond to the presentations with views, experiences or questions.

These presentations focused on co-production, digital/web based support and asset based community development. These are the key messages which emerged from the discussions.



Co-production can work for day services when everyone has a shared understanding of what it means, and is willing to share power and control.

People who work on Mencap Cymru's MeTime project in Rhondda Cynon Taff spoke about their work running a co-produced day service.

We then asked everyone at the conference to tell us their thoughts.

What you told us:

Co-production involves teamwork and is about working 'with' people – not 'doing to' them. It is about people coming together with different experiences to share ideas. It brings together everyone to put equity at the centre. For it to work well, it requires us to tune into people. It is more likely to provide a preventative outcome.



Lots of people talked about the importance of connection and friendship. Co-production can build self-esteem and increase opportunities and independence. It allows for people to act without having lots of plans in advance (spontaneity).

People with a learning disability talked about the importance of being able to choose what they do – voice, choice, and control. Co-Production creates moments that people value as they make the decisions.

Co-production encourages Local Authorities to be more open and honest (transparent) and can create access to the people who usually make decisions.

But several people asked the question, does it really exist?

Lots of our attendees talked about a lack of understanding about what co-production is and how it works. Some people feel it has become a fashionable and over-used word and it is complicated to understand. Co-production can be misunderstood, some people think it's about organisations working together and forgetting the person. This lack of understanding can mean that things are often described as 'co-produced' but are not.

Letting go of control and power is hard for professionals and families. Families need support to understand people's newly discovered independence and positive risk-taking. It's also messy – it doesn't happen in an ordered way and can be unpredictable. Co-production takes time – it is slow.

Some people, especially those who aren't often asked what they think, can find making decisions really difficult. It takes practice. Co-production needs skilled staff and lots of time, we heard that the current shortage in social care staff is impacting on the ability of services to be genuinely co-produced. It was agreed by everyone

that leaders and managers need to take time to understand their role in supporting true co-production.

How do we measure co-production when funders are used to 'activity'? Services and projects should be about the positive effects it has on people, not the hours they receive. What are we trying to measure? Does it always have to be about 'development'. Can it be about having 'a good life'? This includes fun! How do we measure outcomes with this way of working?

Co-production can lead to unrealistic goals, wanting to achieve things that are not possible. Everyone needs to understand that choices can be limited by resources.

We need to build an understanding beyond partnership or engagement. It's a culture, not just a process. This includes an understanding for all people working within Welsh government, families, commissioners, and those working directly with people with a learning disability.

Are digital forms of services an adequate replacement for face to face contact?

Innovate Trust talked to everyone about their app called Insight. Using Zoom they asked people across Wales to talk about how the app helps them.

We then asked everyone at the conference to tell us their thoughts.

What you told us:

Online services are a good way to keep in touch with friends – this was especially important during covid. But most attendees agreed that it shouldn't replace real life contact. It can sometimes be used as a replacement for face-to-face community.

Choice is key, people should have the choice between digital or in person opportunities.

Digital services are a way to extend friendship groups and can build feelings of connection. They helped tackle loneliness during the pandemic and are an opportunity to meet new people in other parts of the country, without needing to travel. Online meetings allow for people to connect with others who have a shared interest or hobby (Community of interests) to develop.

Increasing digital literacy is a chance to learn new skills and technology. During the pandemic lots of people with a learning disability ran their own meetings. However, in rural areas a decent connection can often be found lacking. Broadband and devices can be expensive, and difficult to learn if they are new to you.

Many attendees had concerns about safety and security online. How do we ensure people feel confident using online means? There needs to be clear, easy to use guidance for support providers and families.

If services are to become community-based, how can we ensure that the assets of a community are used to develop services?

What is an asset-based community way of working?

Asset-based community led ways of working are about recognising the strengths of the community and using them, e.g. experience, skills, buildings.

Mencap Mon from Anglesey talked about their experience bringing people's direct payments together to do group activities.

Joey from Mencap spoke about her My Community project in Tenby. It is about using people's strengths to improve the area.

We then asked everyone at the conference to tell us their thoughts.

What you told us:

There is a lack of understanding about what asset-based community ways of working means. Lots of people don't understand how it is different to co-production.



It is about working together and recognising that we all have something to give – we are the assets! It can build people's confidence and skills and can open up new opportunities for individuals and communities. But we need to make sure we don't take advantage of people. People with learning disabilities should have opportunities to be paid.

Asset-based community ways of working can increase visibility and includes disabled people in our communities. It can be a good use of community assets and make use of underused resources.

Local groups become involved and care about people with a learning disability being able to access things in the community. However, it takes time and skill to develop communities (options and resources)

Making use of regional / community talents and skills is more sustainable than service driven work. Short-term projects can build up hopes which can lead to disappointment.

We need to build a shared understanding about community asset-based ways of working. Lots of people did not understand the difference between this and co-production. We need people to understand that assets are not just buildings!

We need to make sure that Local Authorities include local community assets in plans and commission on this basis.

Recommendations to Welsh Government

Following our survey, conference and discussions with colleagues we suggest the following recommendations for Welsh Government:

- 1. Develop a national consultation standard.** This will ensure that individuals affected by changes in statutory provision receive consistent and timely involvement to share their views on any changes to services.
- 2. Develop a national definitions and standard for co-production and asset-based community development.** This will ensure that power is shared, and that everyone understands that co-production is not simply about consultation. It will also ensure transparency for individuals and their families.
- 3. Place a duty on local authorities and organisations providing day services to explain how they have co-produced changes to day services.** People need to be involved from the beginning of a process, and not when options have already been designed.
- 4. Ensure local authorities and organisations providing day services assess how service changes impact people's friendships and relationships.** The closure of building-based day services means that people won't be able to maintain decades' long friendships, without the services that replace them being empowered to make connections both old and new.
- 5. Local authorities and organisations providing day services MUST assess the impact on family carers of changes to day services.** Whilst day services should provide individuals with connection, belonging and meaningful time spent doing the things they enjoy, family carers have always shouldered the burden of the cuts.
- 6. Develop standards for the use of digital day services.** This should include ensuring people have the choice and that services are not digital-only, providing broadband and devices for low-income/vulnerable adults and those in rural areas.

Learning Disability Consortium includes:






Beth sy'n digwydd i'n gwasanaethau dydd?

Ym 1983, bu newid enfawr yn Strategaeth Anfantais Feddyliol Cymru Gyfan o ran cydnabod bod ar bobl ag anabledd dysgu eisiau byw bywydau cyffredin mewn tai cyffredin, a chafwyd newid o gefnogaeth i bobl ag anabledd dysgu mewn ysbytai mawr i gefnogaeth mwy cymunedol, cefnogaeth awdurdodau lleol neu wasanaethau dydd a gwasanaethau byw gyda chefnogaeth y 3ydd sector. Am dros dri degawd a chyn pandemig COVID, roedd llawer o wasanaethau dydd yn cael eu cynnal mewn adeiladau, neu'n canolbwyntio ar yr un gweithgareddau arferol ac roeddynt yn darparu trefn arferol, ac yn fwy pwysig fyth, y cyfle i dreulio amser gyda ffrindiau a wnaed yn ystod eu bywydau yn yr ysbytai hirdymor. I gael mwy o wybodaeth am y prosiect ewch i <https://www.peoplescollection.wales/users/15475>


Yn gyflym iawn newidiodd COVID y ffordd yr oedd gwasanaethau dydd yn cael eu rhedeg. At ei gilydd, cawsant eu cau neu roeddynt yn cynnig cefnogaeth gostyngol sylweddol i'r rhai oedd ag anghenion mwy cymhleth yn unig. Fodd bynnag, ers diwedd y pandemig, dair blynedd yn ddiweddarach mae llawer o wasanaethau dydd yn dal ar gau neu wedi'u gostwng yn arw mewn nifer ac arweiniodd hyn at lawer o alwadau gan bobl ag anabledd dysgu a'u teuluoedd i Linell Gymorth Anabledd Dysgu Cymru i gael cyngor a chefnogaeth ynghylch cael mynediad at wasanaethau cefnogi yr oedd eu mawr angen.

Er mwyn deall y sefyllfa'n well, ymgwymerodd Mencap Cymru, ynghyd â Chonsortiw Anabledd Dysgu yng Nghymru, ymarfer gwranddo oedd yn cynnwys arolwg cenedlaethol. Cafodd Arolwg Gwasanaethau Dydd Consortiw Anabledd Dysgu (Chwefror 2023) 293 o ymatebion gan bobl ag anabledd dysgu neu eu rhieni/gofalwyr. Cyn COVID cafodd ymatebwyr gyfanswm o 718 o oriau cyfun o gefnogaeth gwasanaeth dydd bob wythnos. Pan gwblhawyd yr arolwg, dim ond 296 o oriau roeddent yn ei gael. Cafodd 73% brofiad o ryw ffurf ar doriad i'w horiau cefnogaeth gwasanaeth dydd, gan effeithio'n arw ar les unigolion a'u teuluoedd.

Oriau gwasanaeth dydd dderbyniwyd gan 293 o bobl gyda'i gilydd



Mae rhai gwasanaethau dydd wedi gostwng eu horiau gweithio ac mae rhai defnyddwyr/teuluoedd yn teimlo nad oes neb yn ymgynghori â hwy ynghylch newidiadau a'u bod yn agored i doriadau annheg. Datgelodd arolwg y Consortiw



Anabledd Dysgu hefyd nas ymgynghorwyd â 75% o ymatebwyr fel rhan o'r newidiadau hyn.

Mewn rhai awdurdodau lleol rhoddwyd system goleuadau traffig ar waith, a olygai bod y rhai sy'n byw gyda gofalwyr di-dâl yn cael blaenoriaeth dros y rhai mewn cartrefi byw gyda chefnogaeth. Mewn awdurdodau lleol eraill roedd y gwrthwyneb yn wir.

Oherwydd eu bod, ar y cyfan, wedi cael eu cau allan o'r penderfyniadau hyn, teimla rhieni/gofalwyr yn gryf bod gwasanaethau dydd mewn rhai ardaloedd

yn cael eu torri er mwyn i awdurdodau lleol arbed arian trwy symud pobl i gefnogaeth 'yn y gymuned' a rhoi pwrpas newydd i adeiladau.

Fe glywsom bod teuluoedd yn teimlo bod cefnogaeth 'yn y gymuned' trwy daliadau uniongyrchol neu gan awdurodau lleol yn aml yn golygu ynysu gweithgareddau, e.e. ymweld â siopau coffi neu ganolfannau hamdden gyda gweithiwr cefnogi. Y gred gyffredinol yw bod y ffordd hon o wneud pethau yn annhebygol o greu na chadw cyfeillgarwch neu gysylltiad heb ofynion neu barodrwydd ar ran awdurdodau lleol i wneud hynny. Nid yw cymuned yn ddaearyddol nac yn ffisegol ond yn bobl.

Er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn ymhellach, cafodd cynhadledd Cymru gyfan ei letya gan Mencap Cymru dydd Llun, 20^{fed} Mawrth, 2023 yng Nghaerdydd. Daeth dros gant o bobl, gan gynnwys pobl ag anabledd dysgu, rhieni a gofalwyr, comisiynwyr, rheolwyr gwasanaeth a staff cefnogi.

Roedd arnon ni eisiau gwybod a oedd ein hargraff o wasanaethau dydd yn adlewyrchu profiadau pobl. Fe wahoddom ni siaradwyr a edrychodd ar amrediad o ddewisiadau gwahanol i'r gwasanaethau dydd traddodiadol mewn adeiladau a gofyn i ddirprwyon ymateb i'r cyflwyniadau â chwestiynau, profiadau a barn.



Canolbwyntiai y cyflwyniadau hyn ar Gydgynhyrchu, Cefnogaeth Ddigidol/Gwefan a Datblygiad Cymunedol wedi'i Seilio ar Asedau. Negeseuon allweddol yw'r rhain a ddaeth allan o'r trafodaethau.

Gall cydgyhyrchu weithio i wasanaethau dydd pan fydd bawb yn rhannu'r un ddealltwriaeth o'r hyn mae'n ei olygu, ac yn fodlon rhannu awdurdod a rheolaeth.

Fe wnaeth pobl sy'n gweithio ar brosiect MeTime Mencap Cymru yn Rhondda Cynon Taf siarad am eu gwaith yn rhedeg gwasanaeth dydd wedi'i gyd-gynhyrchu.

Yna fe wnaethon ni ofyn i bawb yn y gynhadledd i ddweud beth roedden nhw'n feddwl wrthyn ni.

Yr hyn ddywedsoch chi wrthym:

Mae cydgyhyrchu yn meddwl gwaith tîm ac mae ynglŷn â gweithio 'gyda' phobl – nid 'gwneud iddynt'. Y mae ynglŷn â phobl yn dod at ei gilydd gyda gwahanol brofiadau i rannu syniadau. Mae'n dod â phawb at ei gilydd i roi tegwch wrth wraidd y mater, ac i wneud iddo weithio'n dda mae gofyn i ni wrando ar bobl. Mae'n fwy tebygol o roi canlyniad ataliol.



Siaradodd llawer o bobl am bwysigrwydd cysylltiad a chyfeillgarwch. Gall cydgyhyrchu feithrin hunanbarch a chynyddu cyfleoedd ac annibyniaeth. Mae'n caniatáu i bobl weithredu heb gael llawer o gynlluniau o flaen llaw (**digymhellrwydd**).

Siaradodd pobl ag anabledd dysgu am bwysigrwydd medru dewis yr hyn maent yn ei wneud – llais, dewis a rheolaeth. Mae cydgyhyrchu yn creu momentau y mae pobl yn eu gwerthfawrogi wrth iddynt wneud penderfyniadau.

Mae cydgyhyrchu yn annog Awdurdodau Lleol i fod yn fwy agored a gonest (**amlwg**) ac mae'n gallu creu mynediad at bobl sydd fel arfer yn gwneud penderfyniadau.

Ond gofynnodd llawer o bobl y cwestiwn, *ydy o wir yn bodoli?*

Siaradodd llawer o'r rhai oedd yn bresennol am ddiffyg dealltwriaeth o'r hyn yw cydgyhyrchu a sut mae'n gweithio. Mae rhai pobl yn teimlo ei fod wedi dod yn air ffasiynol a orddefnyddir ac mae'n gymhleth i'w ddeall. Gall cydgyhyrchu gael ei gamddeall; mae rhai pobl yn meddwl ei fod yn ymwneud â mudiadau yn gweithio gyda'i gilydd ac yn anghofio am y person. Gall y diffyg dealltwriaeth hon feddwl bod pethau'n aml yn cael eu disgrifio fel rhywbeth cydgyhyrchiol pan nad ydynt mewn gwirionedd.

Mae gollwng gafael ar reolaeth ac awdurdod yn anodd i bobl broffesiynol a theuluoedd. Mae ar deuluoedd angen cefnogaeth i ddeall yr annibyniaeth a ddarganfuwyd o'r newydd gan bobl a'r mentro adeiladol. Mae hefyd yn ddi-drefn –

nid yw'n digwydd mewn ffordd drefnus a gall fod yn anrhagweladwy. Mae cydgynhyrchu yn cymryd amser – mae'n araf.

Mae rhai pobl, yn enwedig y rhai nad yw pobl yn gofyn iddynt yn aml beth maent yn ei feddwl, yn gweld gwneud penderfyniadau yn anodd iawn. Mae'n gofyn ymarfer. Mae ar gydgynhyrchu angen staff medrus a llawer o amser, ond, ar hyn o bryd, mae hyn yn cael ei effeithio gan brinder mewn gweithwyr cymdeithasol a staff gofal. Fe gytunwyd bod angen arweinwyr a rheolwyr ar y tîm.

Sut gallwn ni fesur cydgynhyrchu pan fo noddwyr wedi arfer â 'gweithgaredd'? Dylai gwasanaethau a prosiectau fod ynglŷn â chanlyniadau nid oriau. Beth rydym yn ceisio ei fesur? Oes rhaid iddo wastad fod ynglŷn â 'datblygu'? All o fod ynglŷn â chael 'bywyd da'? Mae hyn yn cynnwys hwyl! Sut rydych chi'n mesur canlyniadau gyda'r ffordd hon o weithio?

Gall cydgynhyrchu arwain at nodau afrealistig – bod ag eisiau cyflawni pethau nad ydynt yn bosibl. Mae ar bawb angen deall y gall dewisiadau gael eu cyfyngu gan adnoddau.

Mae arnon ni angen datblygu dealltwriaeth y tu hwnt i bartneriaeth neu ymrwymiad. Mae'n ddiwylliant nid dim ond proses. Mae hyn yn cynnwys dealltwriaeth gan yr holl bobl sy'n gweithio yn Llywodraeth Cymru, teuluoedd, comisiynwyr a'r rhai sy'n gweithio'n uniongyrchol â phobl ag anabledd dysgu.

A yw ffurfiau digidol o wasanaethau yn ddigonol i gymryd lle cyswllt wyneb yn wyneb?

Fe wnaeth Ymddiriedolaeth Innovate siarad gyda phawb am eu ap o'r enw Insight. Gan ddefnyddio Zoom fe wnaethon ni ofyn i bobl ar draws Cymru siarad am sut mae'r ap yn eu helpu.

Yna fe wnaethon ni ofyn i bawb yn y gynhadledd i ddweud beth roedden nhw'n feddwl wrthyn ni.

Yr hyn ddywedsoch chi wrthym:

Mae gwasanaethau ar-lein yn ffordd dda o gadw mewn cysylltiad â ffrindiau – roedd hyn yn arbennig o bwysig yn ystod COVID. Ond cytunodd y rhan fwyaf o'r rhai oedd yn bresennol na ddylai gymryd lle cysylltiad bywyd real. Gall weithiau gael ei ddefnyddio i gymryd lle cymuned wyneb yn wyneb. Mae dewis yn allweddol, yn ddigidol ac yn y cnawd.

Mae'r digidol yn cynnig ffordd o ymestyn cyfeillgarwch a gall feithrin teimladau o gysylltiad. Roeddynt yn help i fynd i'r afael ag unigrwydd yn



ystod y pandemig ac mae'n gyfle i gyfarfod â phobl newydd mewn rhannau eraill o'r wlad, heb yr angen am deithio. Mae cyfarfodydd ar-lein yn caniatáu i bobl gysylltu â phobl eraill sy'n rhannu diddordebau neu ddefnyddiau (cymuned fuddiant) i'w datblygu.

Mae cynyddu llythrennedd digidol yn gyfle i ddysgu medrau newydd a thechnoleg. Yn ystod y pandemig roedd llawer o bobl ag anabledd dysgu yn rhedeg eu cyfarfodydd eu hunain. Fodd bynnag, mewn ardaloedd gwledig, mae cysylltiad boddhaol yn aml yn ddiffygiol. Gall band eang a dyfeisiau fod yn ddrud ac yn anodd dysgu eu defnyddio os ydynt yn newydd i chi.

Roedd gan lawer o'r rhai oedd yn bresennol bryderon am ddiogelwch ac amddiffyniad ar-lein. Sut gallwn ni sicrhau bod pobl yn teimlo'n hyderus wrth ddefnyddio cyfryngau ar-lein? Fe ddylai bod canllawiau clir, hawdd eu defnyddio ar gyfer darparwyr cefnogaeth a theuluoedd.

Os yw gwasanaethau am fod yn gymunedol, sut gallwn ni sicrhau bod asedau'r gymuned yn cael eu defnyddio i ddatblygu gwasanaethau?

Beth yw ffordd wedi'i seilio ar asedau cymunedol o weithio?

Mae ffyrdd o weithio sydd wedi'i seilio ar asedau cymunedol ynghylch adnabod cryfderau'r gymuned a'u defnyddio, e.e. profiad, medrau, adeiladau

Fe wnaeth Mencap Mon o Ynys Môn siarad am eu profiad o ddod â thaliadau uniongyrchol pobl at ei gilydd i wneud gweithgareddau grŵp.

Fe wnaeth Joey o Mencap siarad am ei phrosiect Fy Nghymuned yn Ninbych-y-Pysgod. Mae'n defnyddio cryfderau pobl i wella'r ardal.

Yna fe wnaethon ni ofyn i bawb yn y gynhadledd i ddweud beth roedden nhw'n feddwl wrthyn ni.



Yr hyn ddywedsoch chi wrthym:

Mae diffyg dealltwriaeth ynghylch beth a olygir wrth ffyrdd wedi'u seilio ar asedau cymunedol o weithio. Nid yw llawer o bobl yn deall sut y mae'n wahanol i gydgyhyrchu.

Y mae ynghylch gweithio gyda'n gilydd a chydabod bod gennym ni i gyd rywbeth i'w roi – ni yw'r asedau! Gall ddatblygu hyder a medrau pobl a gall agor cyfleoedd newydd ar gyfer unigolion a chymunedau. Ond mae arnon ni angen gwneud yn siŵr nad ydym

yn cymryd mantais o bobl. Dylai pobl ag anableddau dysgu gael cyfleoedd i gael eu talu.

Gall ffyrdd o weithio wedi'u seilio ar asedau cymunedol gynyddu amlygrwydd ac mae'n cynnwys pobl anabl yn ein cymunedau. Gall fod yn ddefnydd da o adnoddau cymunedol a defnyddio adnoddau heb ddigon o ddefnydd arnynt.

Bydd grwpiau lleol yn dod yn rhan o hyn ac yn poeni a yw pobl ag anabledd dysgu yn gallu cael mynediad at bethau yn y gymuned. Fodd bynnag, mae'n cymryd amser a medrau i ddatblygu cymunedau (dewisiadau ac adnoddau).

Mae gwneud defnydd o ddoniau a medrau rhanbarthol/cymunedol yn fwy cynaliadwy na gwaith sy'n gyfrifoldeb gwasanaethau. Gall prosiectau tymor byr godi gobeithion sy'n gallu arwain at siom.

Mae arnon ni angen datblygu dealltwriaeth ar y cyd am ffyrdd o weithio wedi'u seilio ar asedau cymunedol. Nid oedd llawer o bobl yn deall y gwahaniaeth rhwng hyn a chydgyhyrchu. Mae arnon ni angen cael pobl i ddeall bod asedau yn fwy na dim ond adeiladau!

Mae arnon ni angen gwneud yn siŵr bod Awdurdodau Lleol yn cynnwys asedau'r gymuned leol mewn cynlluniau a chomisiynu ar y sail hon.

Argymhellion i Lywodraeth Cymru

Gan ddilyn ymlaen o'n harolwg, ein cynhadledd a'n trafodaethau gyda chydweithwyr, rydym yn awgrymu'r argymhellion canlynol ar gyfer Llywodraeth Cymru:

1. Datblygu safon ymgynghori cenedlaethol

Bydd hyn yn sicrhau bod unigolion sy'n cael eu heffeithio gan newidiadau mewn darpariaethau statudol yn cael eu cynnwys yn gyson ac yn amserol i rannu eu barn ar unrhyw newidiadau i'r gwasanaethau.

2. Datblygu diffiniadau a safonau cenedlaethol ar gyfer Cydgyhyrchu a dablygu Cymuned wedi'i Seilio ar Asedau

Bydd hyn yn sicrhau bod awdurdod yn cael ei rannu a bod pawb yn deall nad yw cydgyhyrchu ynghylch ymgynghori yn unig. Bydd hefyd yn sicrhau tryloywder ar gyfer unigolion a'u teuluoedd.

3. Rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol a mudiadau sy'n darparu gwasanaethau dydd i egluro sut maent wedi cydgyhyrchu newidiadau i'r gwasanaethau dydd

Mae ar bobl angen bod ynghlwm wrth y broses o'i dechreuad ac nid pan fydd dewisiadau yn barod wedi'u llunio.

4. **Sicrhau bod awdurdodau lleol a mudiadau sy'n darparu gwasanaethau dydd yn asesu'r ffordd y mae newidiadau i wasanaeth yn effeithio ar gygfeillgarwch a pherthynas pobl**
Mae cau gwasanaethau dydd mewn adeiladau yn meddwl na fydd pobl yn medru cynnal cyfeillgarwch fydd wedi para am ddegawdau heb i'r gwasanaethau fydd yn cymryd eu lle gael awdurdod i wneud cysylltiadau hen a newydd.

5. **Mae'n RHAID i awdurdodau lleol a mudiadau sy'n darparu gwasanaethau dydd, asesu effaith y newidiadau i wasanaethau dydd ar ofalwyr teuluol**
Tra dylai gwasanaethau dydd ddarparu cysylltiad, perthyn a threulio amser arwyddocaol yn gwneud pethau maent yn eu mwynhau i unigolion, mae ofalwyr teuluol wedi ysgwyddo baich y toriadau hyn.

6. **Datblygu safonau ar gyfer defnyddio gwasanaethau dydd digidol**
Dylai hyn gynnwys sicrhau bod pobl yn cael y dewis ac nad yw gwasanaethau yn ddigidol yn unig, darparu band eang a dyfeisiau ar gyfer oedolion incwm isel/hawdd eu clwyfo a'r rhai hynny mewn ardaloedd gwledig.

Yn ogystal â Mencap Cymru, mae'r Consortiwm Anabledd Dysgu yn cynnwys:



